

**Cofnodion Cyfarfod Cynqor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 14eg Mai, 2019 am 7.30pm yn Neuadd Dihewyd.**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Cynghorwyr Alan Henson (Cadeirydd), Haf Hughes, Lynford Thomas, Johnny Davies, Daniel Evans, Lyn Williams, Glyn Davies, Harry Williams

1. **YMDDIHEURIADAU** Y Cynghorwyr Hywel Ifans, Owen Llywelyn, Gerwyn Owen

2. **PERSONOL** Dim i'w gofnodi.

**3. COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y 9fed Ebrill, 2019 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Johnny Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Lyn Williams

4. **DATGELU BUDDION PERSONOL** Dim i'w datgelu

**5. MATERION YN CODI**

12 i. **Coed Hewl Faenog.** Cadarnhaoedd y Cyng. Johnny Davies bod y coed oedd yn creu y broblem fwya' wedi cael eu torri,

12. iii. Cadarnhaoedd Y Cyng. Glyn Davies bod y twll ger arosfan bws Ystrad wedi ei lanw.

**6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas. Nododd yn bennaf ei falchder o lwyddiant Gŵyl Bêl-droed Felinfach 'leni eto gydag 82 o dimau yn cymryd rhan. Llongyfarchodd y criw wrth y llyw. Bu hefyd yn son am ei waith fel Cynghorydd Sir yng nghyfarfod Sefydliad y Merched, Dihewyd.

**7. PWYLLGOR RHANBARTH UN LLAIS CYMRU 18/4/2019**

Cynhaliwyd y cyfarfod ym Mhenmorfa a mynychwyd gan y Cyng. Harry Williams a'r Cyng. Lynford Thomas. Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Harry Williams a soniodd am un newid pwysig sy'n digwydd sef y bydd yn rhaid i bob cynghorydd newydd dderbyn hyfforddiant mewnol ar gyfrifoldebau'r swydd o hyn ymlaen. Yn y cyfarfod nesa' bydd Steffan Gruffudd o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn rhoi cyflwyniad.

**.8..CYLLID**

- i. Llythyr yn cadarnhau trefniadau Praesept o £9950.00 fel a ganlyn: Tri thaliad  
(a) 30/4/2019 £3316.67 (b) 31/7/2019 £3316.67 (c) 31/10/2019 £3316.66
- ii. Cadarnhawyd bod taliad cynta'r Praesept (30/4/2019) wedi ei dderbyn.
- iii. Derbyniwyd anfoneb gan Zurich am yswiriant yr asedau. Yn unol â'r drafodaeth am yr asedau yn y Cyfarfod Blynnyddol 14/5/2019, **penderfynwyd** yn unfyrdol i dalu'r swm o £599.74

- iv. Ail anfonwyd siec o £96.44 i Mr. Les Verdin (001241) gan fod y cynta' wedi mynd ar goll. Rhoddwyd stop ar siec 001238

## 9. GOHEBIAETH

- i. Derbyniwyd cais am finiau baw cwn gan rai o drigolion Dihewyd trwy law'r Cyng. J. Davies. **Penderynwyd** y byddai'r Clerc yn 'neud ymholiadau ynglŷn â'r drefn o osod biniau mewn pentrefi.
- ii. Derbyniwyd llythyr Un Llais Cymru yn cadarnhau aelodaeth y Cyngor am 2019/2020 (trafodwyd 12/2/2019; 8.iv) ac yn gofyn am enw cynrychiolydd i fynychu'r cyfarfodydd sirol. **Ail-etholwyd** y Cyng. Harry Williams a'r Cyng. Lynford Thomas yn unfrydol.
- iii. Ceisiadau ariannol i ychwanegu ar restr mis Mehefin: Age Cymru; Bopath; Eisteddfod Dihewyd; Eisteddfod Felinfach

## 10. CYNLLUNIO

**A190269 Blaenpant, Dihewyd SA48 7PJ. Y Cais :** Dymchwel hen adeilad ac adeiladu estyniad yn ei le. Datganwyd diddordeb gan y Cyng. Haf Hughes a chwblhaodd y ffurflen briodol. Yn dilyn trafodaeth cynigiwyd cefnogi'r cais gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Harry Williams a derbyniwyd yn unfrydol. **Penderfynwyd** i'r Clerc nodi'r penderfyniad trwy borth cysylltu'r Cyngor Sir.

## 11. UNRHYW FATER ARALL

- I. Cododd y Cyng. Harry Williams gwestiwn ynglŷn â safle arfaethedig yr ysgol fro newydd yn Felinfach. Dywedodd y Cyng. Lynford Thomas bod cyfarfod i drafod y mater yn digwydd ar yr 20fed o Fehefin a dylid cael mwy o wybodaeth yn dilyn y cyfarfod hwnnw.
- II. Mae arwydd rhybudd gofal ger fferm Panrhew Dihewyd wedi torri a'r arwydd ei hun wedi diflannu. Mae gwartheg yn croesi yn ddyddiol, ond herwydd nad oes rhybudd gerllaw mae traffg yn teithio'n gyflym a mae cryn ofid y bydd yna ddamwain yn digwydd. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd.
- III. Mae cryn dipyn o ddail a cherrig man ar bwys yr ysgol yng Nghribyn a gwnaed cais y Cyng. Lyn Williams i drefnu *sweeper* i ddod i wasgaru'r brigau ayb. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd.
- IV. Tynnodd y Cyng. Glyn Davies sylw at gwter sydd wedi torri ddim yn bell o Dafarn y Brynog ac yn sinco i'r hewl. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd.
- V. Gwnaed cais gan y Cadeirydd i newid dyddiad cyfarfod mis Gorffennaf gan bod dathliadau 50 mlynedd Carnifal Cribyn yn digwydd yn ystod ail wythnos mis Gorffennaf. **Cytunwyd** i gynnal cyfarfod ar yr 2il o Orffennaf.

## 12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

11eg Mehefin, 2019 yn Neuadd Felinfach

